
Rhifyn 82
Rhagfyr 2014

# Bwletin Llên Natur

*Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas*



Diwrnod o gyfnodau glawiog yng Nghôr y Cewri 24 Awst 2014 (tua 12.20). Ychydig ar ôl hyn, pawb yn ei sgrealu hi am y bysus. **Ifor Williams**

Ewch yn ôl i **Fwletin 51** (tud. 3) i weld cyfeiriad arall at Gor y Cewri
(Cafodd y llun trawiadol hwn ei drin yn gyfrifiaurol i ryw raddau)



**Ffos Noddum** neu Fairy Glen ger Betws y Coed, Hydref 29, 2014. Y ceunant yn llawn o liwiau hydrefol.
**Alun Williams**

Falch o gael gwybod yr enw Cymraeg i'r llecyn prydferth hwn? O lle dath yr enw yma?
**Olwen Evans**

Ystyr Noddum ? **Alun Williams**
Heb wybod dim o hanes y lle, a'i llygriad o noddyn ydio? sy'n golygu pwll tyfn. **Ifor Williams**

**O'r Tywyddiadur**:
21 Awst 1905: *Went to Fairy Glen this morning and Swallow Falls this afternoon in a heavy shower of rain but still enjoyed it* **cerdyn post**

23 Mai 1953: Nol llwyth o 125 o bolion 1/8 yr un, £10.00.0d gan y fforestry wrth Fairy Glen, ochr Llawr Rynys. Olwyn y cargo yn byrstio ac andros o glec ar echel yn torri yn ei chanol. Gweld ffilm gyda'r nos yn Llanrwst Caribean Gold **Dyddiadur DO Jones, Padog**


## Y Meteor Mawr yng Nghymru



Daeth y cofnod yma i'r fei yn ddiweddar wrth bori trwy ddyddiadur William Thomas, Llanfihangel ar Elai, (rhan o Gaerdydd heddiw):
18 Awst 1783: *...between 9 and 10 a ball of fire appeared in the air, runing from East to West and passed in few minutes, wind E.*
**Dyddiadur William Thomas, Michaelston-super-Ely, Morgannwg 1762-95**

Gwelwyd y **seren wib hon** rhwng yr Alban a'r Eidal. Mwy o gofnodion am 18 Awst 1783 **yma** (y llun dyfrlliw gan Paul Sandby o Gastell Windsor)

## Pen Sychnant 'slawer dydd




Cyhoeddwyd y llun hwn o Bensychnant, Conwy yn y Caernarfon & Denbigh Herald ym mis Hydref o'r Llyfrgell Gyngres UDA. Mae'n dod o gasgliad dyddiedig 1890-1900. (cafodd y llun ei liwio â llaw)





Dyma ddau lun o'r un olygfa eisoes yng nghasgliad Llén Natur, yr uchaf o ddechrau'r ganrif a'r isaf a dynnwyd ganrif yn ddiweddarach yn2010.

Mae'r tri llun yn dangos ymlediad graddol y grug dros y marian ar y dde (gyda pheth colledion hefyd), ac yn ddiweddarach, coed celyn (y smotiau tywyll yn y llun isaf) yn ymledu.

## Trowynt ar lannau'r Merswy

Cafodd trowynt ei ffilmio yn croesi traffordd yr M53 ger Bromborough, Glannau'r Ferswy dydd Mercher 8ed Hydref eleni. Gellir gweld ceir yn tynnu i'r llain galed wrth i'r trowynt fynd heibio. Cafwyd adroddiadau am drowyntoedd yn swyddi Cymbria a Derby, lle collodd un ty ei do.

**Guardian ar-lein**

Trowyntoedd eraill yn y Tywyddiadur cliciwch **yma**. A beth arall oedd yn digwydd ar 8 Hydref 2014?

Lleuad coch "Blood Moon" 8 Hydref 2014 yn cael llawer o sylw yn y wasg a lluniau wedi eu tynnu o sawl man dros y byd.

Golan: Diwrnod i`w gofio heddiw .... Eitha cynnes o hyd. Ond dyma gyda`r nos yn cyraedd a thywyllwch. Am 6.30pm roedd yn fellt a tharanau i lawr yn Bae Ceredigion, daethant yn nes ac yn nes ac i fyny Dyffrn Madog i ddechrau cyn dod i fyny at yma tua 9 yr hwyr. Goleuadau ty yn mynd a dod pob tro roedd mellten. Para tan 10.30pm yna fel diffodd switch mi dawelodd.Ond roedd peth taranau trwy`r nos ac fe roedd mellt am 6.30 y bore 9fed. **Tom Jones**

## Gweilch y pysgod

Parc Cenedlaethol Nagarhole, De'r India, 20 Hydref 2014.

**Eifion Griffiths**



**Dyddiadur Gweilch y Glaslyn:**

Iar Gwalch y Pysgod yn ol heddiw 22 Mawrth 2014 ar y nyth am yr unfed flwyddyn ar ddeg.

Gweilch y Pysgod wedi dod yn ôl unwaith eto (27 Mawrth 2013)... Mae cwmni newydd yn cychwyn ar y gwarchod eleni ynghyd ar RSPB a fydd yn trosglwyddo popeth trosodd i'r cwmni newydd diwedd y tymor yma.

Am 8am y bore yma (20 Mawrth 2012) glaniodd yr iar Gwalch y pysgod ar ei nyth, blwyddyn union i'r dyddiad ac amser i llynedd. **Tom Jones**

## Ynys â nythfa gwylannod ar Lyn Eiddew Mawr

4 Mehefin1884: *Louis Gilfs [?] borrowed my waders and waded out to the island [Llyn Eiddew Mawr] to get the eggs of the great black backed gull, which breeds here; he got 2 eggs, and also found a wild ducks nest deserted.*

**"Sporting Diary" CEM Edwards Dolserau (Archifdy Dolgellau)**

Mae gen i ryw gof bod gwylanod cefnddu mwyaf yn nythu ar lyn yr adar (ar ynys) ond ddim 100%. **Rhys Jones**

Oes, mae yna 'ynys', sy'n fwy o graig i ddeud y gwir, yn Llyn Eiddew Mawr - ddim yn bell iawn, iawn o'r strwythur y mae'r Bwrdd Dwr (fel oedd o) wedi ei godi i fynd allan dros y llyn. Mae gen i gof mod i wedi gweld gwylanod cefnddu fwyaf yn nythu yno, a bod pâr o gwmpas y llyn yn amlach na pheidio, yn y gwanwn/haf yn fwy na'r gaeaf. Yn ddiweddar, mae'r bali gwyddau Canada yn nythu'n rheolaidd o gwmas y llyn yn rhwla. Bosib bod y gwylanod cf yn help i'w rheoli wrth fwyta'r cywion! Rhyw ddwy flynedd yn ôl, mi aeth Margiad a finna at y llyn am dro ym mis Mehefin, a be oedd yno ond nythaid o bibyddion cyffredin a'r cywion o'n cwmpas yn galw ac yn 'bobian'.



Dwi di sylwi hefyd ar wylanod yn nythu ar yr ynys yn Llyn yr Adar, sy ddim yn bell o gopa'r Cnicht. Mae na wylanod yn nythu hefyd, dwi'n meddwl, ac os dwi'n cofio'n iawn, ar y creigiau bach yn Llynnau Cerrig-y-myllt.

**Haf Meredydd**

**(Llun y pibydd gan Eifion Griffiths 20 Ebrill 2011, Conwy)**

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd (Rhif Elusen: 1126027). Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter.**

**Cysylltwch â ni trwy llennatur.yahoo.co.uk.**

# Cnwd Caws-llyffant hydref 2014

## Boled mawr Mari



Ddaru fi a Mari ganfod y boled anferth hwn (diameter >20cm) ar y ffordd adre o'r wledd fadarch [19 Hydref, y "wledd" yn dilyn Helfa Ffwng Llên Natur ym Mharc Dudley, Waunfawr]. Dwi'n meddwl mai *Boletus pinicola* ydi o - yn tyfu yn Cae Steddfod ger Ysgol Syr Huw - reit amlwg o'r lon.

**Gareth Griffiths**

Atodaf hefyd **bapur** gan fy ngyfaill Bryn (pennaeth mycoleg yng ngerddi Kew) ynglyn â ph(?)orcini [*porcini* = eidaleg am *cepes* (Ffr.) boledau neu capiau tyllog]. Bryn o Minnesota heb unrhyw gysylltiad teuluol Cymraeg - ond ei gefneither **wedi astudio PhD [Cymraeg] yn Aber**.

**A dyma fyrdwn diddorol y papur hwn**:

"*Accurate diagnosis of the components of our food and a standard lexicon for clear communication is essential for regulating global food trade and identifying food frauds. Reliable identification of wild collected foods can be particularly difficult, especially when they originate in under-documented regions or belong to poorly known groups such as Fungi. Porcini, one of the most* ***widely traded wild edible mushrooms*** *in the world, are large and conspicuous and they are used as a food both on their own and in processed food products. China is a major exporter of porcini, most of it ending up in Europe. We used DNA-sequencing to identify three species of mushroom contained within a commercial packet of dried Chinese porcini purchased in London. Surprisingly, all three have never been formally described by science and required new scientific names. This demonstrates the ubiquity of unknown fungal diversity even in widely traded commercial food products from one of the most charismatic and least overlooked groups of mushrooms. Our rapid analysis and description makes it possible to reliably identify these species, allowing their harvest to be monitored and their presence tracked in the food chain*".

## Cetyn y diafol



Credwn ni blant yn y Waunfawr yn y 1950au fod y "mwg" (sef y sborau) o hwn yn eich dallu o'u cael yn eich llygaid!

*The devil's tobacco pouch* yw un enw Saesneg arno.

Ewch **yma** i weld coden fwg yn ffrwydro... a mwy am y ffwng hwn gan Gwyn Williams

## Coden fwg enfawr



Wrth ymyl tomen dail (dim cysylltiad?) Plas Glan yr Afon, Waunfawr, 7 Tachwedd 2014 (*Langermannia gigantea* neu *Calvatia gigantea*)

**Duncan Brown**

*Yes Giant Puffball, Calvatia gigantea, unmistakeable due to the size. They are edible when young and still completely white inside, (can then be sliced and fried), However, once they've got to this size the spores have usually ripened and the inside is dark brown, so best to just admire! Not that common a fungus around here, more an occasional find in my experience.*

**Debbie Evans**

## Bonet, *Mycaena*



Hydref 31, ar stwmp coeden pin, ardal Llyn Brenig, **Alun Williams**

*A species of Mycena, (Bonnets), and I would be reluctant to say which species without a closer look at the specimens macroscopically and doing a microscopic confirmation as there are similar ones.*

**Debbie Evans a Charles Aaron**

## Ser y ddaear



Taith Cymdeithas Edward Llwyd i ardal Hendre ger yr Wyddgrug SJ 18878 67748. Hydref 11eg.

**Alun Williams**

*Yes I agree that this looks like Geastrum triplex - The Collared Earthstar - and that it is a good photo of the group. They also turned up at the Treborth foray yesterday* [11 Hydref]

**Debbie Evans**

## Bomiau nwy Almaenig





Rampiau a gafodd eu codi ar gyfer cael gwared o fomiau nwyon o faes awyr Llandwrog yn y 1950'au. Bomiau cafodd eu cludo o'r Almaen ar ôl y rhyfel, a gafodd eu storio yn Llandwrog am gyfnod cyn eu taflu i'r mor yng ngogledd yr Iwerydd. Hanes yn llyfr Roy Sloane Tale of the Tabun. Rhain yn Traeth Gwyn, rhwng Caer y Belan a Penrhyn Mulfran **Ifor Williams**

## "Nid oes tymhorau mwyach"

Mae canlyniadau'r ymchwil diweddar yn dangos y bu cynnydd yn y tymheredd uchaf ac isaf ar lefel blynyddol a dyddiol ers 1950, yn enwedig yn y parthau mewndirol agosaf i'r pegynnau. Ar yr un pryd bu i'r gwahaniaethau rhwng dydd a nos a haf a gaeaf leihau. I'r rhywogaethau sydd yn byw yn y parthau tymherus (fel gogledd Ewrop) mae eu profiad o'r gwahaniaeth rhwng dydd a nos yn debyg iawn i'w profiad o'r hyn mae nhw yn ei brofi dros flwyddyn gyfan. Mae hyn yn golygu felly bod yr amrywiad tymheredd yn y gwledydd tymherus i ffwrdd o'r môr yn cael ei gysoni'n raddol dros y flwyddyn, ac mae'r parthau hyn yn ymdebygu fwy-fwy felly i barthau trofannol (sydd â dau dymor yn unig - tymor sych a thymor gwlyb). Dyma amodau delfrydol i ymlediad heintiau trofannol megis Malaria.



Mae'n ystrydeb bod y tymhorau yn diflannu - ond mae rhai ystrydebau yn gywir! 'Does neb yn cael ei arbed gan effeithiau Newid Hinsawdd erbyn hyn (Crynodeb y Golygydd,)

Wang G a Dillon ME (2014) Nature Climate Change.

**Diolch i Graham Cook (ein cyfieithydd Ffrangeg) am dynnu ein sylw at hwn mewn testun Ffrangeg. Y testun yn llawn yma**

## 1874 Blwyddyn y madarch a'r gwenyn meirch

26 Gorffennaf, Dolgellau: ...: *and just before dinner I went up to see Davies, and on my way back I saw some boys picking heaps of mushrooms some of which I bought. The Squire, Tom, the Minor and I took 3 wasps` nests tonight: two of which were in Dolgun*

**"A Sporting Diary" CEM Edwards Dolserau**

28 Gorffennaf, Langley Burrell, Wiltshire: .... *After dark we took by lamplight the largest wasps' nest I ever saw. It was on the lawn and by the time we had scooped the nest out there was a cave like the mouth of a mine. When a lighted candle was placed at the bottom of the shaft, the effect from the distance of a few feet was very curious. It looked like the entrance to the bottomless pit. In the course of our operations both Dora and I were stung, she in the neck and I in the ball of the thumb.*

**Dyddiadur Y Parch Francis Kilvert**

Awst 1874, Pwllheli: Dywedir na welwyd erioed gymaint o mushrooms ag oedd ddydd Llun yn Mhwllheli, pryd y gwerthwyd hwy am ddwy geiniog y pwys **Llais Y Wlad 7 August 1874**

1 Awst 1874, Dolserau, Dolgellau: *...and picked a quantity of mushrooms about Bont Newydd. ...*

2 Awst 1874, Dolserau, Dolgellau: ... *It rained very hard this morning ... went by the fields to Bont Newydd after mushrooms and came home by lunch time the opposite side: we picked a great many mushrooms. ... then to the Llwyn fields for mushrooms. We took down two wasps nests this evening .. in Dolgun.*

9 Awst 1874, Dolserau, Dolgellau: *It rained very heavy before I got home. ... We intended to take wasps nests this evening but were prevented by the rain.* **Sporting Diary" CEM Edwards Dolserau**

25 Awst 1874, Chippenham: *This afternoon I drove my Mother through Chippenham to Tytherton and it was scalding hot. ....tea at the Larges'. Their garden is a perfect blaze of blossom....In the evening Dora and I blew up three large wasps' nests, two in the Avenue Field and one under the oak at the side of the lawn. Mary Kimber the cook helped us. We all got stung and Dora twice badly on the leg.*

**Dyddiadur Y Parch Francis Kilvert**

**Ac yn 1998**: Ar y 4ydd Medi roedd 3 nyth cacwn yng Nghoed Dolgarrog - Dominic Knorpell, myfyriwr ymchwil, wedi cael ei bigo'n ddibaid ganddynt - Hywel hefyd - blwyddyn ddrwg iawn iddynt? Pan welais i rhain roeddynt wedi cael eu tyllu allan gan foch daear. (un o nifer o gofnodion o'r fath y flwyddyn honno)

## Gwyniad yn Llyn y Gader (Cader Idris)?

Gorffennaf 15, 1874: *We had breakfast at 7.30.... I made an expedition to the two lakes on Cader, viz Llyn Arran and Llyn-y-Cader [sic]. I walked up to Llyn Arran in one hour and five minutes: ... and the weather was close and hot. I was disappointed in finding no breeze; but a great many trout were rising: and I caught three, one about a quarter pound: and also what I think is a gwiniad [sic]: a silver little fish.....*

**The Sporting Diaries of CEM Edwards, Dolgellau**

A dyma ddaliodd Munro Edwards a'i frawd bach y diwrnod hwnnw: *ME Trout (Llyn Arran) 3. Llyn y cader [sic] 50 LE Trout (Wnion) 55.* A doedd dim yn angyffredin yn yr helfa hon! Faint o goel ddylen ni roi ar "gwiniad" ariannaidd ME. Dyma ddywedodd Sion Roberts wrth trawsgrifydd y dyddiadur Chris Simkins: "*Sea trout are called: siwin or sewin... they are also called: gleisiad... and confusingly they are also called gwyniaid - also a name for the arctic charr that live in Llyn Tegid. I would be careful of inferring arctic charr in Llyn y Gader, are there any other records*?" Wel, chwi bysgotwyr Dolgellau? **Sion Roberts**

## Ynni Anafon Energy Cyf.

Mae Ynni Anafon Energy Cyf. yn bwriadu adeiladu cynllun hydro yn nant Anafon uwchben pentref Abergwyngregyn yn ogledd Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y cynllun yma yn creu 957 Mw yr awr sydd yn ddigon i gyflawni trydan i dros 200 o dai, mwy na dwbl y nifer o dai yn y pentref!



Yn y 40 mlynedd cyntaf y cynllun bydd yn mantoli 18,000 tunnell o $CO_2$. a fydd yr incwm dros ben yn cael ei ail fuddsoddi yng ngweithgareddau yr ardal o'i chwmpas. Yn ychwanegol i hyn mae'r cwmni wedi cytuno i roddi swm sylweddol yn y dyfodol i wella'r tir comin sydd ym herchenogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Mae'r cynllun yn cael ei adeiladu ar dir sydd yn cael ei warchod o dan sawl dynodiad ac mae yna restr faith o astudiaethau sydd wedi cael ei gwneud fel rhan o'r gwaith paratoi i sicrhau na fydd y cynllun yn cael unrhyw niwed ar y tirlun, cynefinoedd a rhywogaethau. Mi fydd yna cryn dipyn o waith adeiladu yn mynd ymlaen am ryw 7-8 mis y flwyddyn nesaf, ond pris bychan i dalu bydd hyn i feddwl am y bendithion bydd y cynllun yn creu i'r dyfodol.

Mae Ynni Anafon Energy Cyf yn ddiweddar wedi lansio cynnig am gyfranddaliadau yn y cynllun ac os hoffech mwy o wybodaeth neu yn teimlo fel buddsoddi yn y cynllun yna ymwelwch yma. **Hywel Thomas**

## Morfa Harlech dros ganrif



Mae fy nghyfnither o Dyffryn wedi dod o hyd i hen lyfr o gardiau post yr oedd hen ddewyrth i ni neu ei wraig wedi ei hel efo pob math o gardiau - o bell ac agos.... Dyma un ohonynt wedi ei ddyddio cyn 1909 **Haf Meredydd**

Mae'r cerdyn wedi ei dintio fel roedd cynifer ohonynt yn y cyfnod hwnnw, a cerrig y castell wedi eu lliwio yn gochaidd (gan weithwyr *sweatshops* lliwio yn Lloegr oedd yn meddwl bod pobman yn frics coch 'fatha'i hardal nhw a hwythau wrth gwrs byth yn cael gwyliau eu hunain i wybod yn wahanol!)
Ewch yma i weld sut mae'r un olygfa wedi newid dros y ganrif a aeth heibio. Yn amlwg bu i'r twyni gael eu sefydlogi gan y moresg cwta ddeugain mlynedd ar ol tynnu'r llun uchod.

## Enfys â'r bwa uchaf...

......a welais erioed (i mi gofio) bore'r 5 Tach am tua 0830. Roedd canol (damcaniaethol) cylch y bwa yn eitha pell uwchben y gorwel. Diflannod ond ailymddangosodd hanner awr wedyn yn uchel o hyd ond yn is nag o'r blaen. Beth sydd yn penderfynnu hyn - uchdwr yr haul, uchdwr yr anwedd dwr sydd yn achosi'r enfys, ynteu'r ddau? **DB**



Dyma enfys (dwbl) gan Gwyn Williams (5 Rhagfyr 2008) dros Rhuthun sydd hefyd á braich yn agos i'r fertigol (ac felly canol y bwa uwchben y gorwel). Ewch yma i weld enfys *isel.* Tybed faint o'r gloch y tynnwyd y ddau yma? **DB**
Dwi'n meddwl mai uchder yr haul sy'n gyfrifol am hyn. Gwelais innau enfys uchel iawn uchben Llyn Traws ychydig wythnosau yn ol - ben bore. Meddai Gwyn: gweler **yma.**

## Llanast brain Tal y Fan






I was up Tal y Fan above Rowen on a windy 26th October and came across accumulations of drying moss along trackside etc. which I've never seen before. I can only assume that crows have been pulling up the moss to look for insects and the wind has piled the moss up. Have you seen it before?

**Allan Brandon**

## Corwynt Gonzalo

Pwysedd yr awyr (llinell ddu) a'r tymheredd (llinell goch) yn Llanfaglan ddiwrnod y cyrrhaeddodd "cynffon" y corwynt dydd Mawrth a dydd Mercher (21-22 Hydref).



Pwysau'r awyr yn gostwng i tua 996mb rhwng 3 a 6 bore, Mawrth 21 Hydref [lle mae'r ddwy linell yn croesi]. Hyrddiad gwynt uchaf 44 mya am 3 y prynhawn o gyfeiraid WNW.

**Ifor Williams**

Mae Ysgol Gynradd Llanrug , Caernarfon, yn cofnodi'r tywydd yn otomatic ar-lein. **Dyma grynodeb** o'u cofnodion dros gyfnod corwynt Gonzalo.

## Y beic "fixed wheel"




Edward Morris Hughes, Barcdy, Talsarnau, tua 1890, ar feic teiars caled. Gwelir y lamp garbeid ar y tu blaen, a hefyd bod yr unig frêc yn gorwedd yn union ar ben teiar yr olwyn flaen! Beic 'fixed wheel' oedd hwn a gellir gweld bod lle, o boptu'r fforch flaen [y *rests* isod], i roi traed pan nad oedd angen padlo. **MJ Llais Ardudwy**

December 27 1898: Today a fierce gale is blowing from the sou`-west and against it - having business there - I struggled to Kessingland, accomplishing most of the journey upon a bicycle. The ride from Lowestoft, in the very teeth of the wind, was the hardest I have ever undertaken. Very frequently, indeed, I was obliged to dismount and push behind, a duty that was not made more entertaining by the vision of a curate, cigarette in mouth, sailing past me in the opposite direction, his feet reposing on the rests. I wonder why it is, by the way, that most curates and many clergymen ride bicycles so madly? Thrice have I nearly fallen a victim to their rage. The last time, indeed, I just escaped being run down by the coasting covey of six of them at once. **H. Ryder Haggard**

## Haul Rhuthun

Dyma graff sy'n dangos yr egni a gynhyrchwyd gan fy mhaneli haul yn Rhuthun, ers Mai 2011.





**Gwyn Williams**

Mae'r egni y cofnododd Gwyn yn cyfateb yn union i lefelau golau neu heulwen dros y cy cyfnod. Mis mwyaf golau'r 4 blynedd oedd Gorffennaf 2013. Mis mwyaf heulog yn 2012 oedd Mai.



y saeth yn dangos ynys Llain y Gwystl ar yr afon Gwyrfai ger Llyn Cwellyn ar hen fap xxxx



... a Google Earth yn dangos bod yr ynys erbyn heddiw wedi hen fynd.

## Enwau Nant y Betws (Betws Garmon)

....Wrth ymyrryd a'r hen afon a'i throi allan o'i gwely difethwyd Llain y Gwystl fel nad oes dim ohono i'w weld heddiw. Ar ôl dygymod am ganrifoedd a throadau a thorlannau cyffyrddus ei hen wely plu gwthiwyd hi allan, sythwyd hi a'i rhoi ar "styllen" - mi wyddoch beth rwy'n feddwl!

**Mary Awstin Jones (trwy garedigrwydd ei mab Gwliym Morris "Mois" Jones)**

Mwy am hanes Llain y Gwystl ac ambell hen enw arall anghofiedig (fel Capel Main a Cwirt) yn Nant y Betws **yma....**